Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur Bwrdd

18 Ionawr 2018

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur** | **Diweddariad Cyllid 2017–18** |
| **Cyfeirnod y Papur:** | NRW B B 2.18 |
| **Paratowyd y Papur gan:** | Andrea Morgan, Rheolwr Cyllid Busnes |
| **Cyflwynwyd y Papur gan:** | Rob Bell, Pennaeth Cyllid |
| **Noddwyd y Papur gan:** | **Niall Reynolds, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol dros dro** |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | **Craffu** |
| **Argymhelliad:** | Craffu ar:<br>- Sefyllfa ariannol ar gyfer 2017–18 ar 30 Tachwedd 2017<br>Cymeradwyo:<br>- Adolygiad i gyllideb 2017–18 o ganlyniad i adolygiad o gyllidebau Chwarter 3<br>Sylwer:<br>- Anfonwyd eitemau at Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo ers y cyfarfod Bwrdd diwethaf |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Sylwer – mae'n bosib nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc | **Edrych ar y tymor hir:**<br>Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar y flwyddyn ariannol bresennol, hefyd mae rheoli cyllid yn gadarn yn elfen bwysig o gynllunio ar gyfer y tymor hir.<br><br>**Gweithredu mewn ffordd integredig:**<br><br>**Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth:**<br><br>**Gweithio mewn ffordd gydweithredol:**<br><br>**Atal materion rhag digwydd:**<br>Mae'r papur hwn yn tynnu sylw at y camau sy'n cael eu gweithredu er mwyn lliniaru gostyngiadau i'n cyllid yn y dyfodol. |

## Mater

1. Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad ar ein sefyllfa ariannol ddiweddaraf, wedi'i chymharu â'r gyllideb a adolygwyd ganol y flwyddyn, ar 30 Tachwedd 2017 ac mae'n manylu ar gymeradwyaethau ariannol gan Lywodraeth Cymru.

2. Darparu diweddariad i'r Bwrdd ar adolygiad o gyllidebau Chwarter 3.

## Cefndir

3. Mae perfformiad ariannol yn y flwyddyn bresennol yn datblygu'n dda ar y cyfan. Mae incwm ar y blaen i'r gyllideb, er bod gwariant islaw'r gyllideb am y rhesymau a esbonnir o fewn yr adroddiad hwn.

4. Ddechrau mis Rhagfyr, gwnaethom gwblhau ein hadolygiad o gyllidebau Chwarter 3, a gymeradwywyd gan y Tîm Gweithredol. Gwnaeth hwn nodi newidiadau pellach sydd eu hangen i gyllideb y flwyddyn bresennol.

5. Mae'r diweddariad perfformiad yn yr adroddiad hwn ar ddiwedd Tachwedd, ac felly caiff ei fesur yn erbyn safle'r gyllideb cyn yr adolygiad hwn.

## Asesiad

**Adroddiad Ariannol ar y Flwyddyn hyd yn hyn**

6. Gellir gweld crynodeb o'r perfformiad ariannol ar ddiwedd mis Tachwedd 2017 yn **Atodiad A**.

7. Mae'r sefyllfa ariannol gyffredinol ar ddiwedd mis Tachwedd yn gadarnhaol. Mae incwm ar y blaen i'r gyllideb. Mae gwariant islaw'r gyllideb gan fwy na'r hyn y byddent wedi'i ddymuno am y rhesymau a esbonnir isod.

8. Mae incwm 1% ar y blaen i'r proffil (£1.2m). Mae hyn yn bennaf am fod incwm masnachol ar y blaen i'r gyllideb (£0.9m) yn sgil amodau ffafriol yn y farchnad bren.

9. Mae gwariant 7% (£7.5m) islaw'r gyllideb. Mae'r prif resymau dros y tanwariant hyd yma fel a ganlyn:

   - Fel y disgrifiwyd yn ein cyfarfod Bwrdd diwethaf, rydym islaw'r gyllideb (£1.6m) o ran ein gweithgareddau cynaeafu, marchnata a choedamaeth a chostau cynnal a chadw cysylltiedig seilwaith heolydd coedwig, yn bennaf yn sgil newid o ran gwneuthuriad y rhaglen. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym hefyd wedi gweld gwerthiant pren uwch nag a gyllidebwyd ar ei gyfer.

   - Mae'r gyllideb TGCh y tu ôl i'r amserlen (£0.9m), yn sgil cyfuniad o oedi wrth orffen y manylebau ar gyfer prynu caledwedd a seilwaith cyfrifiadurol, oedi wrth anfonebu ar gyfer meddalwedd a thrwyddedau cyfrifiadurol, a chysylltiad

rhwydwaith PSBA yn ogystal â newidiadau i broffiliau gwariant. Ar hyn o bryd, mae angen y gyllideb lawn o hyd ar gyfer y flwyddyn.

- Mae Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda chyrff etifeddol £1.4m islaw'r gyllideb ac mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau costau sy'n weddill gyda Chomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr (mae Llywodraeth Cymru wedi negodi setliad gyda'r Comisiwn Coedwigaeth).
- Mae costau staff islaw'r gyllideb (£0.7m) ac maent yn debygol o barhau felly yn unol â chynlluniau recriwtio presennol.
- Gwnaed newidiadau i'r proffiliau gwariant a gynlluniwyd ar gyfer rhai prosiectau, megis Deddf yr Amgylchedd ac ymgorffori prosiectau rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a LIFE, a bydd angen i ni gario drosodd y cyllidebau i'r flwyddyn nesaf (£1.5m).
- Mae rhaglen gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd ar y blaen i'r gyllideb (£2m). Cawsom gadarnhad ffurfiol gan Weinidog yr Amgylchedd o gyllid ychwanegol o £2m ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Rydym yn hyderus y gallwn reoli ein rhaglen gyda'r cyllid ychwanegol hwn.
- Mae amrywiaethau eraill sy'n cyfrannu at y tanwariant cyffredinol hyd yn hyn o £7.5m ac fe'u hesbonnir yn **Atodiad A**. Rydym wedi canolbwyntio ar bob un o'r cyllidebau hyn fel rhan o adolygiad Chwarter 3 gyda chyllidebau a phroffiliau wedi'u hailasesu.

## Adolygiad o Gyllidebau Chwarter 3

10. Rydym wedi casglu ein hadolygiad o gyllidebau Chwarter 3. Cafodd canlyniadau'r rhain eu cymeradwyo gan y Tîm Gweithredol ym mis Rhagfyr.

11. Mae canlyniadau'r adolygiad yn cael eu crynhoi yn y tabl isod:

| Adolygiad o Gyllideb Chwarter 3 | Cyllideb Incwm | Cyllideb Gwariant – Dyrannwyd | Cyllideb Gwariant – Wrth gefn | Cyllideb Gwariant – Cario ymlaen 2018-19 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb a Adolygwyd ynghanol y Flwyddyn** | **189.6** | **185.6** | **2.4** | **1.6** |
| 1 – Adolygiad Gwariant | 0.0 | -6.1 | 2.6 | 3.5 |
| 2 – Adolygiad Incwm | 1.0 | 0.2 | 0.9 | 0.0 |
| 3 – Newidiadau mewn cyllid ar gyfer prosiectau penodol | 1.9 | 1.9 | 0.0 | 0.0 |
| **Canlyniad Adolygiad o Gyllideb Chwarter 3** | **2.9** | **-4.0** | **3.5** | **3.5** |
| 4) Cronfeydd wrth gefn cyffredinol i'w cario ymlaen i 18-19 ar gyfer pwysau na chyllidir ar eu cyfer | 0.0 | 0.0 | -5.9 | 5.9 |
| **Cyllideb a Adolygwyd yn Chwarter 3** | **192.5** | **181.6** | **0.0** | **11.0** |

12. Caiff prif ddeilliannau'r adolygiad eu crynhoi isod:

- Mae'r adolygiad gwariant wedi nodi gostyngiad o £6.1m. Mae £2.6m yn sgil gostyngiad yn y gyllideb angenrheidiol o fewn y cyfarwyddiaethau, sy'n cynnwys gostyngiad o £1.4m yn y ddarpariaeth ar gyfer gwerthuso swyddi yn y flwyddyn ariannol hon yn sgil oedi wrth ei weithredu ac arbedion mewn costau gweithlu (£0.5m) a chostau a phrosiectau eraill nad ydynt yn ymwneud â staff (£0.7m). Mae oedi hefyd wrth weithredu prosiectau a noddir gan Grant Cymorth ychwanegol Llywodraeth Cymru (£3.5m), sydd i'w gario ymlaen i 2018–19. Y mwyaf o'r rhain yw Cloddfeydd Metel (£1.4m), Rheolaeth Gynaliadwy o Adnoddau Naturiol (£0.6m), Prosiect Cyfalaf BETWS (£0.5m), Llwybr Arfordir Cymru (£0.4m), a Chydymffurfiaeth Cronfeydd Dŵr (£0.3m).

- Mae adolygiad o gyllidebau incwm wedi nodi cynnydd (£1.0m), a gaiff ei wrthbwyso gan gynnydd cysylltiedig mewn gwariant (£0.2m). Mae hyn yn bennaf yn sgil cynnydd mewn gwerthiannau pren (£0.9m).

- Mae cyllid ar gyfer prosiectau penodol wedi cynyddu o £1.9m eleni ac mae hyn yn bennaf yn sgil cynnydd mewn Cymorth Grant ar gyfer ein Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llifogydd (£2.0m). Rydym wedi derbyn cadarnhad ffurfiol o'r cyllid hwn gan Weinidog yr Amgylchedd.

- Effaith gyffredinol adolygiad cyllideb Chwarter 3 yw cynyddu'r hyn sydd wrth gefn er mwyn rheoli pwysau cyllido yn y dyfodol o £3.5m i £5.9m. Caiff y cyllid hwn bellach ei gario ymlaen i 2018–19 er mwyn cydbwyso ein cyllideb a chyfrannu tuag at bwysau na chyllidir ar eu cyfer. Mae cyfanswm y cyllid a gaiff ei gario ymlaen ar gyfer prosiectau penodol wedi cynyddu o £3.5m i £5.1m, gan ddod â'n cyfanswm i gario ymlaen i £11m. Caiff cais i gynyddu ein terfyn cario ymlaen ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

- Bydd angen i ni wneud cais i gynyddu ein terfyn cario ymlaen gyda Llywodraeth Cymru ac rydym eisoes wedi eu rhybuddio hwy o hynny. Gwneir cais ffurfiol ar gyfer hynny pan fyddwn ni'n gwybod faint o gyllid ychwanegol, os o gwbl, y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i helpu gyda phwysau na chyllidir ar eu cyfer y flwyddyn nesaf.

**Cymeradwyaethau Ariannol Llywodraeth Cymru**

13. Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa a ddiweddarwyd o ran cymeradwyaethau Llywodraeth Cymru a gafodd eu cynnwys fel rhan o gyfarfod Bwrdd mis Tachwedd:

| Eitem | Gwerth | Disgrifiad | Cymeradwyaeth |
|---|---|---|---|
| Prosiect Adfer Cloddfeydd Metel Fron-goch | £1,304k | Prosiect ar gyfer gosod haen clai ychwanegol dros wastraff cloddfa a lygrwyd yn y gloddfa blwm a sinc a adawyd yn Fron-goch. Bydd angen triniaeth bellach i'r gollyngiadau dŵr daear sy'n weddill hefyd er mwyn bodloni safonau Ewropeaidd yn Nant Fron-goch. Cadarnhawyd £145.5k ar gyfer y gwaith hwn | Cymeradwywyd ar 7 Tachwedd 2017. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | o'r Gronfa Gyfalaf ar gyfer Tir Llygredig. | |
| Forest Holidays – Buddsoddiad | £200k | Ar hyn o bryd, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru fuddiant lleiafrifol mewn cwmni o'r enw Forest Holidays. Mae LDC, y prif gyfranddaliwr, yn y broses o werthu ei ran ecwiti, a chanlyniad hynny yw y bydd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru werthu ein cyfranddaliad presennol, a amcangyfrifir i fod yn £200,000. Gofynnwyd am gymeradwyaeth i alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i gael y cyfle i ail-fuddsoddi ein cyfran bresennol yn Forest Holidays drwy'r cynigydd newydd a gaiff ei ffafrio. | Cymeradwywyd ar 22 Tachwedd 2017. |
| Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Pil Crindai | £3,780k | Mae angen cyllid ychwanegol ar gyfer cynllun rheoli perygl llifogydd Pil Crindai yn sgil cymhlethdodau ac oedi sylweddol i'r cynllun gwreiddiol. Bydd y cyfanswm newydd yn £14,471,000, gan gynnwys y gofynion ychwanegol. Cafodd y cyllid ychwanegol hwn ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd. | I'w bennu |

## Risgiau Allweddol

14. Mae risgiau a chyfleoedd sydd heb eu meintioli eto ac felly ni chawsant eu hymgorffori i'r gyllideb ddiwygiedig a gellir eu gweld yn y tabl risg/cyfleoedd yn Atodiad A.

15. Y prif risg ariannol yw cost derfynol y cynllun gwerthuso swyddi a gymeradwywyd, a fydd hefyd yn effeithio ar flynyddoedd yn y dyfodol.

## Argymhellion

16. Craffu ar y sefyllfa ariannol ar gyfer 2017–18 ar 30 Tachwedd 2017.

17. Cymeradwyo'r diwygiad i gyllideb 2017–18 , sy'n codi o adolygiad o gyllidebau Chwarter 3.

18. Nodi’r eitemau a anfonwyd at Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo ers y cyfarfod Bwrdd diwethaf.

## Goblygiadau Ariannol

19. Mae'r papur yn ymwneud â sefyllfa ariannol a pherfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn codi ar wahân i'r amser a dreuliwyd wrth reoli cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru a chreu'r adroddiad hwn.

## Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

20. Nid oes ei angen.

## Rhestr o Atodiadau

Atodiad A     Adroddiad ar Berfformiad Ariannol ar gyfer Tachwedd 2017